



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydlyniant Cymunedol Cynllun Cyflawni Cenedlaethol

2016–17



Rhagair y Gweinidog



Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gefnogi Cymru o gymunedau cydlynol sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal. Golyga hyn wrando ar farn ein cymunedau i hybu cynhwysiant cadarnhaol a nodi'n barhaus unrhyw rwystrau a sut y gellir eu goresgyn.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i newid y ffordd yr ydym yn rhyngweithio ac yn ehangu'r ffordd yr ydym yn edrych ar y byd. Mae hyn yn arbennig o wir lle nad materion lleol a chenedlaethol yn unig sy'n bwysig, ond lle y caiff digwyddiadau byd-eang effaith ar y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn teimlo. Wrth gwrs, weithiau rydym yn wynebu sefyllfaoedd sy'n rhoi cadernid ein cymunedau a'r modd yr ydym yn cyd-fyw ar brawf. Gall negeseuon o raniadau a chasineb greu tensiynau dwfn yn ein cymunedau a chreu heriau i gymunedau a phartneriaid. Gall gwaith ar gydlyniant cymunedol helpu i hybu gwerthoedd cyffredin a rhoi mesurau ataliol ar waith.

Rwyf wedi ymrwymo i lansio cyllid am flwyddyn ychwanegol ar gyfer wyth Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i barhau ac i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol yn 2016-17. Mae'r Cynllun newydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed rhwng 2014-16 ac yn canolbwyntio ar saith canlyniad yn ymwneud â throeddau casineb, caethwasiaeth fodern, cynhwysiant Sipsiwn a Theithwyr, mewnfudo, trechu tlodi, prif ffrydio cydlyniant a monitro tensiynau. Cyhoeddais adroddiad gwerthuso'r rhaglen ym mis Mai 2015, a ddangosodd fod y Cydgysylltwyr ledled Cymru wedi gwneud cynnydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod heriau newydd a pharhaus o ran cyflawni'r cynllun yn 2016-17.

Rydym yn symud tuag at hinsawdd newydd lle mae Cymru o gymunedau cydlynol yn rhan o'r amcanion cenedlaethol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hyn yn sicrhau bod cydlyniant yn parhau i fod wrth wraidd sut mae Cyrff Cyhoeddus yn cyflawni polisiâu a gwasanaethau yn y dyfodol. Un canlyniad allweddol yw'r ffocws ar feddwl yn yr hirdymor ac i roi mesurau ar waith sy'n gallu helpu i atal problemau rhag codi neu waethgu. Mae gwaith ar draws y Cynllun Cyflawni yn anelu at ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf sy'n ymwneud ag integreiddio, cydweithio a chynnwys i sicrhau bod polisiâu a gwasanaethau yn parhau i ymateb i anghenion lleol. Bydd y Cynllun Cyflawni hefyd yn cyd-fynd â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, lle y bydd cydlyniant cymunedol yn amcan strategol i Lywodraeth Cymru, ac â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, i ddangos sut rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau da a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb dwfn.

Bydd y Cynllun Cyflawni yn helpu i ddangos pwysigrwydd cyfraniad cydlyniant cymunedol at weithio gyda phartneriaid er mwyn wynebu heriau gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws yr amrywiaeth o bobl a chymunedau sy'n rhan o Gymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

A handwritten signature in black ink, reading 'Lesley Griffiths'. The signature is fluid and cursive, with the first name 'Lesley' and the surname 'Griffiths' clearly distinguishable.

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Canlyniad 1: Adrannau, sefydliadau a phobl yn deall troseddau casineb, dioddefwyr yn gwneud adroddiadau ac yn cael cymorth addas

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Mae strwythurau lleol / rhanbarthol cynaliadwy yn gweithio er mwyn cymryd camau pellach sy'n gysylltiedig â 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'	Parhaus i ymgysylltu â strwythurau sydd eisoes yn bodoli er mwyn arwain a gweithio mewn partneriaeth ar draws meysydd allweddol gan gynnwys yr Heddlu, iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol Defnyddio data, tueddiadau ac ymarfer lleol i roi gwybod i bartneriaid am y cynnydd a wnaed	Mae strwythurau'n dangos craffu ar y cynnydd a wnaed yn lleol / yn rhanbarthol Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt mewn perthynas â Nodweddion Gwarchodedig, yn ôl Awdurdod Lleol Cyflwynir data mewn fformat hygrych sy'n amlinellu cynnydd mewn cyd-destun lleol / rhanbarthol	Gall strwythurau brofi'r hyn a gyflawnwyd o safbwynt y blaenoriaethau a nodwyd ac maent yn gysylltiedig â Phartneriaethau Diogelwch yn y Gymuned / Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cynnydd canrannol yn nifer yr adroddiadau a ddaw drwy'r Heddlu Mae'r data yn helpu i adolygu cynnydd ac i ddangos y bylchau	Cyflawnir camau gweithredu a blaenoriaethau trwy strwythurau Cynhwysir gwybodaeth yn y cynlluniau perthnasol a defnyddir hyn wrth ddarparu gwasanaethau
2. Mae gan adrannau, sefydliadau a	Cydgysylltu cyfleoedd hyfforddi i staff rheng flaen er mwyn mynd i'r afael â Throseddau Casineb	Nifer y staff rheng flaen sy'n cael hyfforddiant yn ôl adran	Targedir hyfforddiant yn y meysydd a nodwyd yn yr asesiad o fylchau ac	Mae gan staff wybodaeth a chymorth i gynyddu cyfraddau

phobl wybodaeth glir a chywir i gyfeirio a chynyddu'r adrodd ar droseddau casineb	drwy Cymorth i Ddioddefwyr a darparwyr eraill Gwaith ataliol i fynd i'r afael â throseddau casineb i'w gynnwys ar draws Adrannau Addysg Lleol a chefnogi'r broses o nodi gwaith ag iddo ffocws penodol gyda phlant a phobl ifanc Cysylltiadau wedi'u sefydlu â Byrddau Diogelu (Oedolion a Phlant) ynglŷn â gwaith i fynd i'r afael â throseddau casineb, gan gynnwys Troseddau Casineb Anabledd a Throseddau Cyfeillio Tystiolaeth o ymgysylltu allanol â Byrddau Iechyd Lleol a Chymdeithasau Tai i hybu adrodd ac i ddarparu gwybodaeth a briffiau ynglŷn â gwaith lleol Cydweithio gyda Cymorth i Ddioddefwyr a sefydliadau eraill i nodi a thargedu gwybodaeth ar draws Nodweddion Gwarchodedig a chymunedau er mwyn cyfeirio pobl at gyfleusterau adrodd a	Mae adrannau wedi'u briffio ac yn ymwybodol o wybodaeth a strwythurau lleol / rhanbarthol Caiff gwaith ataliol ei adnabod a'i gefnogi Nifer y troseddau/digwyddiadau casineb sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig yr adroddwyd amdanynt yn ôl Awdurdod Lleol, drwy Drydydd Parti	anghenion Mae adrannau'n integreiddio cyflenwi â gwaith craidd ac yn darparu tystiolaeth o sut mae polisïau ac arferion yn gynhwysol Mae pobl yn gallu cael gwell gwybodaeth a chymorth ac mae sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol nodweddion	adrodd Mae gwaith ar droseddau casineb yn cael ei brif ffrydio Mae gan bobl fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o droseddau casineb
---	---	--	--	--

	gwybodaeth Cydgysylltu ymgyrchoedd, gweithgareddau a chyfathrebu yn ystod wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb i gynyddu dealltwriaeth ac adrodd	Caiff partneriaid eu cynnwys mewn dull rhanbarthol i dynnu sylw at Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb a chefnogir gweithgareddau gan Awdurdodau Lleol	gwarchodedig yn ymgysylltu	
--	---	---	-----------------------------------	--

Canlyniad 2: Adrannau, sefydliadau a phobl yn deall caethwasiaeth fodern, dioddefwyr yn gwneud adroddiadau ac yn cael cymorth addas

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Mae strwythurau lleol yn gynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern	Cefnogi gwaith y Grwpiau Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol â'r nod o sicrhau bod cysylltiadau cynaliadwy ar waith i brif ffrydio mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern drwy Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Byrddau Diogelu	Nifer yr atgyfeiriadau drwy'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gan Awdurdodau Lleol i Ganolfan Masnachu Pobl yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol Nifer yr atgyfeiriadau gan Awdurdodau Lleol a hefyd trwy sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf	Mae strwythurau'n gynaliadwy ac yn dangos tystiolaeth o gyflawni	Mae'r camau a blaenoriaethau drwy Grwpiau Atal Caethwasiaeth yn gynaliadwy ac yn cael eu cyflawni drwy strwythurau
2. Dangosir lle i gael adnoddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth a gyflwynir gan asiantaethau partner	Cydgysylltu'r Rhaglen Hyfforddi Atal Caethwasiaeth ar gyfer y Grŵp Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol Hwyluso ymgyrchoedd cenedlaethol ar lefel leol	Nifer y staff rheng flaen sy'n cael hyfforddiant Partneriaid yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth gan gynnwys Wythnos Atal Caethwasiaeth Cymru a chefnogir gweithgareddau gan Awdurdodau Lleol	Targedir hyfforddiant â phartneriaid ar draws Awdurdodau Lleol Mae pobl yn gallu cael gwell gwybodaeth a chymorth ac mae sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol nodweddion gwarchodedig yn chwarae eu rhan	Mae gan asiantaethau wybodaeth a chefnogaeth i gynyddu adroddiadau Mae gan bobl fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern

Canlyniad 3: Mwy o ymwybyddiaeth o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr a mwy o ymgysylltu â nhw

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Rheolir tensiynau cymdeithasol drwy wybodaeth gywir a chyfoes ar gyfer pob carfan	Cefnogi cynhyrchu briffiau eglur (mewn cydweithrediad â chydweithwyr adrannau tai a chynllunio Awdurdodau Lleol) ynglŷn â'r broses gynllunio i reoli disgwyliadau Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned ehangach	Cynhyrchu a chyfathrebu briffiau perthnasol yn brydlon	Mae'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn deall briffiau. Briffiau hygyrch ar gael hefyd i'r rhai a allai fod yn pryderu ynglŷn â'r posibilrwydd o safleoedd yn eu hardal nhw	Rheolir disgwyliadau i gynnal cysylltiadau. Mae'r boblogaeth ehangach yn deall y broses. Cysylltiadau da â'r Cyngor yn parhau
	Cydweithio â chydweithwyr Cyfathrebu i gytuno ar strategaeth ar gyfer y cyfryngau mewn perthynas â'r broses o nodi safleoedd newydd	Darparu gwybodaeth, gan gynnwys 'chwedlau a ffeithiau', i sicrhau bod neges gyson a chywir yn cael ei chyflwyno	Mae straeon yn y cyfryngau sy'n ymwneud â'r broses yn cynnwys llai o gamgymeriadau, yn cyfathrebu'r broses yn eglur, ac yn mabwysiadu tôn gytbwys	Straeon yn y cyfryngau yn llai tebygol o achosi tensiynau o ganlyniad i adroddiadau mwy cytbwys
	Cefnogi Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned a Thref i sicrhau bod llai o gamwybodaeth	Darparu gwybodaeth i Gynghorwyr ynghylch eu dyletswyddau a'r broses	Cynghorwyr yn teimlo'n wybodus ac nid ydynt yn gwneud sylwadau cyhoeddus gwallus ynglŷn â'r broses	Mae etholwyr yn deall y broses yn well ac mae llai o botensial ar gyfer tensiynau
	Cydgysylltu cyfleoedd hyfforddi i swyddogion	Nifer o gyfleoedd hyfforddi yn cael eu darparu	Swyddogion yn teimlo'n fwy abl i ymgymryd â'r	Mae gan swyddogion awdurdodau lleol

			broses	wybodaeth gyfoes a chywir i'w helpu i ddewis safle
2. Anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hyrwyddo, gan gynnwys drwy'r broses Dewis Safle a'r Asesiad o Anghenion Iechyd	Hyrwyddo anghenion Sipsiwn a Theithwyr mewn prosesau dewis safle Cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i gael mynediad at gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal nhw	Hyrwyddo safbwyntiau Sipsiwn a Theithwyr o fewn prosesau'r Awdurdod Lleol ar gyfer dewis safle Asesiad o Anghenion Iechyd (fel sy'n ofynnol o dan 'Teithio at Iechyd Gwell') i gynnwys cymaint o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr â phosibl	Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo bod eu safbwyntiau wedi'u hystyried. Mae'r broses dewis safle yn fwy tebygol o fod yn addas at y ddiben Sipsiwn a Theithwyr yn fodlon cymryd rhan	Mae cynnwys safbwyntiau yn y broses dewis safle yn lleihau tensiwn diangen lle y caiff safleoedd a nodwyd eu barnu'n annigonol yn ddiweddarach Bydd yr asesiad yn fwy cadarn ac, felly, yn fwy defnyddiol wrth gynllunio gwasanaethau

**Canlyniad 4: Mwy o dystiolaeth ar fewnfudo a mwy o ymwybyddiaeth ohono, a chefnogi cynnwys
ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr**

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Partneriaid ac Adrannau'n deall patrymau mudo lleol a'u goblygiadau	Adnabod a hyrwyddo ffynonellau data allweddol drwy Gontract y Gwasanaeth Mudo a ffynonellau perthnasol	Datblygu gwybodaeth a data ynglŷn â mudo a'r effaith ar gydlyniant cymunedol	Caiff gwybodaeth leol ei rhannu	Rhannu gwybodaeth ar draws meysydd polisi a gwasanaethau sy'n dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir.
	Datblygu briffiau amserol ar batrymau mudo a thueddiadau ar gyfer Cynghorwyr, partneriaid a chymunedau	Cynhyrchu cyngor a briff amserol	Cynhyrchu briff cywir sy'n llywio penderfyniadau	Mae briff yn llywio penderfyniadau lleol ac yn darparu gwybodaeth gywir
	Cefnogi prosiectau mudo ar raddfa fawr i asesu'r effaith ar gydlyniant lleol (lle bo hynny'n berthnasol)	Cynhyrchu cyngor a briff amserol	Mae ffactorau cydlyniant a thensiynau sy'n deillio o brosiectau ar raddfa fawr yn cael eu rheoli	Mae prosiectau'n cynnwys penderfyniadau allweddol ynglŷn â materion a thensiynau sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol
	Datblygu gwybodaeth ynglŷn â chymunedau Roma a chefnogi cysylltiadau cymunedol cadarnhaol (lle y bo'n)	Datblygu data a gwybodaeth ar Gymunedau Roma	Mae gwybodaeth yn dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer	Caiff gwasanaethau allweddol eu hystyried er mwyn datblygu gwybodaeth a

	berthnasol) Darparu cefnogaeth yn yr ardaloedd sydd wedi'u pennu ar gyfer ail-gartrefu a chydweithio ag Awdurdodau Lleol ar lefel strategol i gefnogi rhoi Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Llywodraeth Cymru ar waith (lle y bo'n berthnasol)	Datblygu cysylltiadau gyda Grwpiau a Fforymau presennol i gynorthwyo yn y broses o wneud penderfyniadau	cymunedau lleol Cefnogir gwaith strategol ar draws Awdurdodau Lleol a darperir gwybodaeth a briffiau amserol	chefnogaeth briodol Mae gwaith ar draws meysydd polisi a gwasanaethau yn cynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid
2. Cefnogi Awdurdodau Lleol drwy weithredu'r Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria a'r Cynllun Adleoli pobl fregus o Affganistan (lle y bo'n briodol)	Cefnogi gwaith cynllunio cynnar gyda phartneriaid a gwaith paratoi ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd drwy'r cynllun Cysylltiadau â Chydgyssylltydd Cenedlaethol y Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria (os cytunir ar swydd) i ddatblygu dull strategol ac i ddarparu briffiau i Gynghorwyr ac Adrannau Cefnogi cyfathrebu a thensiynau yn y gymuned er mwyn darparu gwybodaeth ffeithiol a chywir	Datblygu fforymau a sefydlu cynlluniau Datblygu dull cydweithredol a gwybodaeth a briffiau Nodi a lliniaru tensiynau yn y gymuned Datblygu a gweithredu strategaethau cyfathrebu effeithiol	Mae cynllunio'n galluogi partneriaid i gefnogi ailsefydlu Cefnogir mapio, cynllunio a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn rhanbarthol Rheolir tensiynau a chyfathrebu drwy'r Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria yn rhagweithiol ac mae prosesau ar waith i leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl	Cefnogir newydd-ddyfodiaid i ymsefydlu mewn cymunedau Mae Awdurdodau Lleol yn cynllunio darpariaeth yn effeithiol ac yn derbyn gwybodaeth i gefnogi ffoaduriaid Mae gan gymunedau a ffoaduriaid wybodaeth gywir i hybu cydlyniant cadarnhaol

Canlyniad 5: Mwy o ddealltwriaeth ynghylch effeithiau tlodi ar bobl â Nodweddion Gwarchodedig ym mhob maes polisi a gwasanaeth allweddol

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Mae Rhaglenni Trechu Tlodi (Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl) yn ystyried effaith y rhaglenni ar y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig perthnasol, gan gydnabod bod mwy o berygl i grwpiau penodol fyw ar aelwyd ag incwm isel ac o fod mewn perygl o gael canlyniadau gwaeth	Defnyddio data a gasglwyd ar Nodweddion Gwarchodedig perthnasol ar draws y rhaglenni trechu tlodi, er mwyn asesu sut mae'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau gwell Darparu briffiau a gwybodaeth a'i rannu ar draws rhaglenni sy'n ymwneud ag effeithiau Tlodi (gan gynnwys tlodi plant) ar Nodweddion Gwarchodedig perthnasol, gyda'r bwriad o rannu arferion da a nodi rhagor o gyfleoedd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl i gyflawni gwell canlyniadau	Defnyddio data i asesu effaith rhaglenni ar draws Nodweddion Gwarchodedig perthnasol Casglu a rhannu ymchwil a data perthnasol	Casglu darlun cyfannol ar draws rhaglenni Mae gan raglenni wybodaeth i ddylanwadu y gwasanaethau a ddarperir ac i ymestyn cyrhaeddiad ar draws Nodweddion Gwarchodedig	Mae effeithiau cliriach ar gydlyniant ar draws Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu deall Mynd i'r afael ag anghenion â Nodweddion Gwarchodedig wrth ddarparu gwasanaeth er mwyn cynyddu gwaith estyn allan ac effaith ar draws y Nodweddion Gwarchodedig
2. Mae staff rhaglenni trechu	Rhannu gwybodaeth ynghylch materion cydlyniant cymunedol	Rhannu gwybodaeth berthnasol a rhoi diweddariadau amserol, gan	Dangosir amrywiaeth o fentrau ymgysylltu drwy	Rhennir gwell tystiolaeth o ran materion

tlodi yn cael cefnogaeth ar flaenoriaethau cydlyniant cymunedol	lleol a / neu ranbarthol a chynnwys staff perthnasol wrth gynllunio (yn cynnwys troseddau casineb, mewnfudo a Sipsiwn a Theithwyr)	gynnwys drwy Fforymau a Grwpiau perthnasol	bob agwedd o gydlyniant cymunedol	cydlyniant cymunedol lleol a / neu ranbarthol ac mae staff yn chwarae eu rhan ac yn gweithio gyda Chydgyssylltwyr
---	--	--	-----------------------------------	---

Canlyniad 6: Polisiâu a rhaglenni allweddol yn cefnogi ac yn dangos yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y nod cenedlaethol o gymunedau mwy cydlynol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni yn erbyn y nod cenedlaethol o 'gymunedau mwy cydlynol'	Datblygu gwaith ar draws Adrannau i gyd-fynd â'r nod cenedlaethol o gymunedau mwy cydlynol a chefnogi Cynlluniau Llesiant	Pennu cwmpas gwaith sy'n ymwneud â chydlyniant i gyd-fynd â'r gwaith a wneir drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Mae Awdurdodau Lleol yn gallu nodi sut mae cynllunio ar gyfer cymunedau mwy cydlynol yn cael ei gyflawni	Mae ardaloedd lleol yn darparu dulliau cynaliadwy i ymgorffori cydlyniant
2. Cefnogi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol lleol a rhanbarthol i ganolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng cydraddoldeb a chydlyniant	Cefnogi'r broses o weithredu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol i adlewyrchu blaenoriaethau cydlyniant lleol a rhanbarthol	Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol wedi ystyried blaenoriaethau cydlyniant i gyd-fynd ag amcanion cydlyniant	Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol wedi sefydlu cysylltiadau clir â chydlyniant ac wedi nodi meysydd sy'n gorgyffwrdd	Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn gallu dangos blaenoriaethau drwy elfen Hyrwyddo Perthynas Dda y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Canlyniad 7: Mae polisiâu a gwasanaethau'n ymatebol i densiynau yn y gymuned

Beth fydd hyn	Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Mesur perfformiad		
		Faint a wnaethom	Pa mor dda y gwnaethom hyn	A oes rhywun wedi elwa?
1. Awdurdodau Lleol yn adnabod tensiynau yn y gymuned ac yn ymateb yn gynnar iddynt	Mae prosesau monitro tensiynau yn y gymuned yn ymateb i faterion lleol	Mae strwythurau a phrosesau monitro tensiynau yn dangos tystiolaeth o brosesau i ddatrys problemau	Nifer o ddigwyddiadau posibl wedi cael eu nodi drwy systemau monitro tensiynau	Mae systemau monitro tensiynau yn rhai cynaliadwy ac yn ymatebol i densiynau newydd wrth iddynt godi
2. Cefnogi Pwynt Cyswllt Unigol Awdurdodau Lleol i reoli a chyflawni'r rhaglen Prevent a deddfwriaeth a pholisiâu newydd	Helpu Adrannau Addysg i ddeall dyletswyddau a hybu'r defnydd o'r Canllawiau Gwrthsafiad a Pharch (Ionawr 2016) Cefnogi ymgysylltu â chymunedau y mae'r rhaglen Prevent a deddfwriaeth/polisiâu yn effeithio arnynt er mwyn deall sut mae'r gymuned yn teimlo ac unrhyw densiynau posibl yn y gymuned	Mae adrannau addysg yn cael cefnogaeth a chyngor i weithio gydag ysgolion Ymgysylltu â chymunedau a grwpiau lleol	Mae adrannau addysg yn gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion Mae ystod o grwpiau a chymunedau yn chwarae eu rhan	Mae ysgolion yn teimlo'n hyderus i reoli cynllun gweithredu'r dyletswyddau newydd Mae Cymunedau'n teimlo'n rhan o'r broses, maent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ac mae ganddynt lais